Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

LLANDUDNO

I SICRHAU GWELL NOSON ALLAN!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Mae Llandudno wedi cychwyn gweithio tuag at achrediad y **Faner Borffor**, sy'n golygu datblygu'r hyn sydd gan y dref i'w gynnig yn ystod y nos er mwyn i bobl gael eu hannog, eu hysbrydoli a theimlo'n ddiogel i fwynhau'r dref gyda'r nos i gael gwell noson allan.

Drwy gydweithio, bod yn greadigol, a threfnu'n ofalus, rydym wrthi'n creu cyrchfan a fydd yn ffynnu rhwng 5pm a 5am.

# Beth yw'r Faner Borffor?


Mae'r Faner Borffor yn **gynllun achredu a gydnabyddir yn rhyngwladol**, tebyg i Wobr y Faner Werdd ar gyfer parciau a Gwobr y Faner Las ar gyfer traethau. Mae'n cydnabod trefi a dinasoedd sydd wedi ymrwymo i greu cyrchfannau sy'n **ddiogel, yn groesawgar ac yn fywiog gyda'r nos i bawb.** Lansiwyd y cynllun yn y DU yn 2009, ac mae'n cael ei reoli gan y Gymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd (ATCM).

Nid yw economïau gwych yn ystod y nos yn digwydd ar hap. Maen nhw'n cael eu creu drwy arloesi, cynllunio'n bwrpasol, trefnu'n ofalus a gweithio'n gadarn mewn partneriaeth - gan greu lleoedd sy'n gweithio i bobl **rhwng 5pm a 5am.**

# Baner Borffor i Landudno

Caiff tref Llandudno ei chydnabod fel un o gyrchfannau ymwelwyr mwyaf blaenllaw Gogledd Cymru, ac mae'n croesawu trigolion ac ymwelwyr drwy gydol y dydd a'r nos. Wrth i'r dref weithio tuag at statws y Faner Borffor, mae'n datblygu ar y sylfaen cadarn hwn i gynnig darpariaeth ddiogel, groesawgar a bywiog gyda'r nos.

Bydd llwyddo i gael achrediad yn dangos ymrwymiad ar y cyd rhwng busnesau, partneriaid a'r awdurdod lleol i ddatblygu **economi cynhwysol o safon uchel a reolir yn dda gyda'r nos ac yn ystod y nos**, gan gefnogi busnesau lleol, gwella profiad yr ymwelwyr ac atgyfnerthu enw da Llandudno fel lle gwell i fynd am noson allan.



twristiaeth@conwy.gov.uk #BanerBorffor #NosonAllanWell

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

LLANDUDNO
I SICRHAU GWELL NOSON ALLAN!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Sut mae'r Faner Borffor yn cael ei beirniadu?

**Asesir am achrediad y Faner Borffor ar draws amrediad o ffactorau** sy'n creu economi gyda'r nos ac yn ystod y nos Llandudno, a pha ffordd well o werthuso hyn nag yn y cnawd? **Bydd aseswyr o'r ATCM yn ymweld â Llandudno i gael profiad o'r dref rhwng 5pm a 5am**, er mwyn cael gweld drostyn nhw eu hunain sut mae'n perfformio fel economi gyda'r nos ac yn ystod y nos.

Yn ystod eu hymweliad, fe fyddan nhw'n asesu sut mae Llandudno'n llwyddo i ddarparu canol tref ar ôl 5pm sy'n:

- Teimlo'n ddiogel ac yn groesawgar ✓
- Cynnig cymysgedd eang o weithgareddau a phrofiadau ✓
- Hygyrch ac yn cael ei rheoli'n dda ✓
- Annog gweithio mewn partneriaeth ✓
- Hyrwyddo lles a chynhwysiant ✓

Os bydd yn llwyddiannus, bydd Llandudno'n ennill statws Baner Borffor **ac yn cael yr hawl i hedfan y Faner Borffor gyda balchder**. Mae hon yn anrhydedd gydnabyddedig, gyda'r statws yn ymestyn mor bell ag Awstralia a Seland Newydd.



twristiaeth@conwy.gov.uk #BanerBorffor #NosonAllanWell

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

LLANDUDNO
I SICRHAU GWELL NOSON ALLAN!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Sut fydd fy musnes i'n elwa o'r Faner Borffor?

Mae'r Faner Borffor yn dod ag **amrediad eang o fanteision yn ei sgil i fusnesau a budd-ddeiliaid** yn Llandudno, gan helpu:

- **Gwella enw da'r dref** fel cyrchfan o safon uchel a reolir yn dda
- **Cynyddu hyder a nifer yr ymwelwyr**, a'r amser maen nhw'n ei dreulio yno
- Annog pobl i **ymweld eto** a gadael adolygiadau cadarnhaol
- Cefnogi amgylchedd **diogel, croesawgar a dymunol**
- Cryfhau'r **economi gyda'r nos** ac yn ystod y nos
- **Datgloi cyfleoedd newydd** am fuddsoddiad a gweithio mewn partneriaeth

P'un a ydych chi eisoes yn rhan o'r hyn sydd gan Llandudno i'w gynnig gyda'r nos ac yn ystod y nos, yn ystyried ymestyn eich oriau agor, neu heb weld lle i'ch busnes chi ar ôl 5pm eto, mae'r Faner Borffor yn cynnig fframwaith ar gyfer twf a chydweithrediad.

Drwy weithio tuag at yr achrediad, gall busnesau gyfrannu at ganol tref gryfach sy'n fwy cyd-gysylltiedig - un sy'n denu amrywiaeth ehangach o ymwelwyr, yn annog pobl i aros yn hirach, ac yn cefnogi cymysgedd mwy amrywiol o weithgareddau. Yn ogystal â gwella'r profiad cyffredinol i gwsmeriaid, bydd hyn hefyd yn creu'r amodau i bobl wario mwy, i fwy o bobl ymweld, ac yn arwain at economi lleol mwy gwydn.

Mae'n bwysig nodi nad rhywbeth ar gyfer gyda'r nos yn unig yw'r Faner Borffor - mae'n ymwneud â sut mae busnesau, partneriaid a'r gymuned ehangach yn cydweithio i greu cyrchfan gadarnhaol a chynaliadwy. O wella diogelwch a chynhwysiant i gryfhau'r cysylltiadau rhwng sectorau, mae'n cynnig ffordd ymarferol a chydnabyddedig i fusnesau o bob math chwarae rhan mewn gwneud Llandudno'n lle gwell i fynd am noson allan.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

LLANDUDNO
I SICRHAU GWELL NOSON ALLAN!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Gweithgor Baner Borffor Llandudno

Caiff gweithgarwch ar gyfer y Faner Borffor yn Llandudno ei gefnogi gan bartneriaeth amlasiantaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth a bywiogrwydd economi'r dref gyda'r nos ac yn ystod y nos. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, busnesau lletygarwch a thwristiaeth lleol, eiddo masnachol a thrwyddedig, gweithredwyr cludiant, grwpiau cymunedol a mwy.

Ar y cyd, mae aelodau'r gweithgor yn gyfrifol am baratoi cyflwyniad Baner Borffor Llandudno a hyrwyddo'r cynllun ymysg trigolion ac ymwelwyr, gan fanteisio ar eu gwybodaeth a'u profiad o'r dref. Os hoffech chi gymryd rhan, byddem wrth ein boddau'n clywed gennych chi.

# Pecyn gwaith y Faner Borffor

Datblygwyd Pecyn Gwaith y Faner Borffor i helpu busnesau chwarae rhan weithgar yn y gwaith o greu economi gyda'r nos ac yn ystod y nos Llandudno. Mae'n darparu arweiniad ymarferol, camau syml ac adnoddau parod i helpu creu cyrchfan groesawgar, fywiog a mwy diogel rhwng 5pm a 5am.

P'un a ydych chi eisoes yn rhan o'r hyn sydd gan y dref i'w gynnig yn ystod y nos, neu'n chwilio am gyfleoedd newydd, mae'r pecyn gwaith wedi'i ddylunio i'ch helpu chi gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth. I holi am gopi ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf, cysylltwch dros e-bost: twristiaeth@conwy.gov.uk.



twristiaeth@conwy.gov.uk #BanerBorffor #NosonAllanWell